**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**Y CABINET**

**DYDD IAU, 21 MAI 2020**

## Cabinet Members:

Cynghorwyr:: R.G.Jones (Cadeirydd), D.Jones, E.V.Latham, A.R.Lockyer, P.A.Rees, P.D.Richards, A.Wingrave a/ac L.Jones

## Swyddogion yn bresennol:

S.Phillips, A.Evans, A.Jarrett, H.Jenkins, N.Pearce, C.Griffiths, C.Morris, C.Furlow-Harris, J.Burge, M.Shaw, S.Blewett, S.Curran, A.Manchipp, C.Davies a/ac T.Davies

---

## 1. PENODI CADEIRYDD

Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd R G Jones yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Gwnaeth yr aelodau canlynol ddatganiadau o fudd ar ddechrau'r cyfarfod:

Y Cynghorydd D Jones - Parthed: Eitem 5, Penodi Llywodraethwr yr Awdurdod Lleol, gan ei bod hi'n llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Cilfrew Ysgol Gymunedol Llangatwg.

Y Cynghorydd A Lockyer Parthed: Eitem 5, Penodi Llywodraethwr yr Awdurdod Lleol, gan ei fod e'n llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Castell-nedd ac mae ei fab yn athro yn Ysgol Gyfun Dŵr y Felin.

Y Cynghorydd P A Rees Parthed: Eitem 5, Penodi Llywodraethwr yr Awdurdod Lleol, gan ei fod e'n llywodraethwr yn Ysgol Gyfun Cefn Saeson.

Y Cynghorydd P D Richards - Parthed: Eitem 5, Penodi Llywodraethwr yr Awdurdod Lleol, gan ei fod e'n Is-Gadeirydd y Llywodraethwyr yn ysgolion cynradd Blaenbaglan a Baglan.

## 3. CYHOEDDIADAU CYLLID A PHOLISI LLYWODRAETH CYMRU

Derbyniodd yr aelodau ddiweddariad llafar am y sefyllfa gyfredol ynghylch cyllid a chyhoeddiadau polisi Llywodraeth Cymru, gan gynnwys grantiau i fusnesau bach, y Gronfa Cadernid Economaidd a chymorth Ardrethi Busnes Ardrethi Annomestig Cenedlaethol, gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol.

Nodwyd bod Llywodraeth Cymru yn ystyried rhoi rhagor o ddyfarniadau grant i wahanol gyrff a sefydliadau yn yr wythnosau i ddod, yn ogystal â'r £24.4 miliwn sydd eisoes wedi'i dalu i 2221 o sefydliadau.

Rhoddwyd diweddariad ar y cyllid i'r cyngor a'r gwasanaethau mae'n eu darparu (arian ar gyfer cyllid llywodraeth leol)

- Sicrhawyd bod £30 miliwn ar gael i ddechrau (£7 miliwn ar gyfer prydau ysgol am ddim, £10 miliwn ar gyfer y digartref ac £13 miliwn ar gyfer gwasanaethau cyffredinol).
- Sicrhawyd bod £40 miliwn pellach ar gael ar gyfer y gronfa caledi gofal cymdeithasol hyd at ddiwedd mis Mai,
- £33 miliwn pellach ar gyfer prydau ysgol am ddim, tan ddiwedd mis Awst,
- a £3 miliwn ar gyfer TG i blant diamddiffyn nad oes ganddynt fynediad at dechnoleg.

Disgwylid rhagor o gyhoeddiadau cyllid gan Lywodraeth Cymru cyn bo hir.

Nododd Aelodau y byddai Llywodraeth Cymru yn rhoi £500 i weithwyr gofal - rhagwelwyd y byddai'r arian hwn yn mynd yn syth i'r darparwyr gofal preswyl i'w ddosbarthu, gan nad oedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu mwyach o fewn y cyngor. Nid oedd cymhwyster ar gyfer y

taliad yn eglur eto, ond byddai rhagor o ddiweddariadau'n cael eu darparu i Aelodau pan fyddent ar gael:

Roedd Llywodraeth Cymru wedi ad-dalu £63,000 i'r cyngor ar gyfer mis Mawrth ar gyfer gwariant uwch oherwydd pandemig Covid-19 ac roedd cais am £814,000 wedi'i gyflwyno ar gyfer mis Ebrill.

Roedd gwybodaeth wedi'i chyflwyno i Lywodraeth Cymru drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynghylch colli incwm a'r effaith ar gymorth a chasglu Treth y Cyngor - roedd y cyfarwyddwr yn aros am eglurhad ynghylch unrhyw gyllid posib ar gyfer hyn.

Byddai adolygiad monitro'r gyllideb yn cael ei gynnal cyn diwedd mis Mai i nodi canlyniadau'r materion hyn ar gyllidebau'r cyngor. Dywedodd y Cyfarwyddwr wrth yr Aelodau y byddai adroddiad monitro'r gyllideb cynnar yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Cabinet i'w drafod.

**Penderfyniad:**

Penderfynwyd cofnodi'r diweddariad llafar.

## 4. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2019/2020

**Penderfyniadau:**

Yn dilyn argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Craffu cynharach, cytunodd y Cabinet i gynnwys geiriad ychwanegol ym mhenderfyniad 3, ***fel ei hysgrifennir mewn llythrennau bras ac italig.***

1. Nodi'r cynnydd a wnaed ar y gwaith i wella Llywodraethu Corfforaethol a gyflawnwyd yn ystod 2019-2020,

2. Cymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2019-2020 a atodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd,

3. Cymeradwyo'r gwaith gwella Llywodraethu Corfforaethol arfaethedig i'w wneud yn ystod 2019-2021, fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, ***yn amodol ar adolygiad cynnar a brys o'r amcanion, oherwydd effaith y pandemig coronafeirws.***

**Rheswm dros y penderfyniad:**

I sicrhau bod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn bodloni gofynion Rheoliad 5(2) Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 mewn perthynas â'r adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd systemau rheoli mewnol y cyngor a pharatoi a chymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

5. **PENODI LLYWODRAETHWYR YR AWDURDOD LLEOL**

Yn y cyfarfod, trafododd yr Aelodau benodiad Alyson Jones i Ysgol Gynradd Crymlyn. Nid oedd y penodiad hwn wedi'i gynnwys yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, gan mai hi oedd yr ail ymgeisydd i ymgeisio am y swydd yn Ysgol Gynradd Awel y Môr.

**Penderfyniadau:**

Un unol â pholisi cymeradwy, penodir y cynrychiolwyr Llywodraethwr yr Awdurdod Lleol canlynol i'r swyddi gwag isod sy'n bodoli eisoes ac sydd ar ddod:

**Ysgol Gynradd Awel y Môr**
Penodi Phillip O'Leary

Ysgol Gynradd Baglan
Ailbenodi'r Cynghorwyr Carol Clement-Williams a Peter Richards

**Ysgol Gynradd Blaenbaglan**
Ailbenodi'r Cynghorydd Peter Richards

**Ysgol Gynradd Catwg**
Ailbenodi Reanne Lee

**Ysgol Gyfun Cefn Saeson**
Ailbenodi'r Cynghorwyr John Warman, Peter Rees a Sheila Penry

**Ysgol Gynradd Cilfrew**
Ailbenodi Arlene Harvey a'r Cynghorydd Doreen Jones

**Ysgol Gynradd Crymlyn**
Penodi Alyson Jones

**Ysgol Gynradd Cwmnedd**
Ailbenodi Eddie Exley Jones

**Ysgol Gyfun Cwmtawe**
Ailbenodi'r Cynghorydd Linet Purcell a Julie Mallinson

**Ysgol Gyfun Dŵr y Felin**
Ailbenodi Campbell T Coram, D  Keith Davies a Paul Winstone

**Ysgol Gynradd y Gnoll**
Ailbenodi'r Cynghorydd Alan Lockyer

**Ysgol Gynradd Godre'r-graig**
Ailbenodi'r Cynghorydd Rosalyn Davies

**Ysgol Gymunedol Llangatwg**
Ailbenodi'r Cynghorydd Doreen Jones ac Aylwin Jones
Penodi Christopher Coles

**Rhyd y Fro**
Ailbenodi John Williams
**Ysgol Gynradd Tonnau**
Penodi Jeanette Francis

**Ysgol Gynradd Waunceirch**
Ailbenodi Bethan Healey

**Ysgol Gynradd Ynysfach**
Ailbenodi Aylwin Jones

**YGG Blaendulais**
Ailbenodi'r Cynghorydd Karl Hunt ac Emyr Lewis

**YGG Castell-nedd**
Ailbenodi'r Cynghorydd John Miller

**YGG Cwmnedd**
Ailbenodi'r Cynghorydd Del Morgan

**YGG Pontardawe**
Ailbenodi David Howell Lloyd Williams

**YGG Trebannws**
Ailbenodi'r Cynghorydd Rebeca Phillips

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Galluogi'r awdurdod i gyfrannu at lywodraethu ysgolion effeithiol drwy gynrychiolaeth ar gyrff llywodraethu ysgolion

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

## 6. ALLDRO CYFALAF 2019-20

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo sefyllfa alldro Rhaglen Gyfalaf 2019/20.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Cytuno ar sefyllfa'r alldro cyfalaf ar gyfer 2019/20.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

## 7. ALLDRO REFENIW 2019-20

**Penderfyniadau:**

1. Nodi'r sefyllfa'r alldro cyfalaf ar gyfer 2019/20 fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

2. Cymeradwyo trosglwyddo'r arian wrth gefn ychwanegol sef £1.161m fel a grynhoir ym mharagraff 3.2 yr adroddiad a ddosbarthwyd ac fel y nodwyd yn Atodiad 4.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Cwblhau sefyllfa Alldro Refeniw ac Arian Wrth gefn Cronfa Gyffredinol y cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

8. **STRATEGAETH DATGARBONEIDDIO AC YNNI ADNEWYDDADWY**

**Penderfyniad:**

Cytuno ar yr ymatebion i'r sylwadau a dderbyniwyd, fel y nodwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd, a chyhoeddi'r Strategaeth Datgarboneiddio ac Ynni Adnewyddadwy, fel y nodwyd yn Atodiad 2 yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

I sicrhau bod strategaeth/cynllun gweithredu clir yn cael ei gyhoeddi gan y cyngor mewn perthynas â'r agenda newid yn yr hinsawdd/datgarboneiddio.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghoriad:**

Mae'r eitem hon wedi bod yn destun ymgynghoriad allanol.

9. **GORCHMYNION RHEOLEIDDIO TRAFFIG - LEIROS PARK DRIVE A RAVENSWOOD CLOSE, BRYNCOCH**

Nododd Aelodau yr atodiad atodol sef Atodiad A a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod, gan fod yr Atodiad A gwreiddiol yn ymwneud â Gorchymyn Rheoleiddio Traffig ar wahân, ac fe'i hatodwyd ar gam.

**Penderfyniad:**

Rhoi'r Gorchymyn Gwahardd Aros ar Unrhyw Adeg 2020 ar waith yn Leiros Parc Drive a Ravenswood Close, Bryncoch, Castell-nedd (fel y nodwyd yn Atodiad A yr adroddiad a ddosbarthwyd) fel y'i hysbysebwyd, a hysbysu'r gwrthwynebydd yn briodol.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Atal parcio diwahaniaeth er diogelwch y briffordd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghoriad:**

Mae'r eitem hon wedi bod yn destun ymgynghoriad allanol.

10. **GORCHMYNION RHEOLEIDDIO TRAFFIG – SWANSEA ROAD, TREBANNWS**

**Penderfyniad:**

Rhoi'r Gorchymyn (Gwahardd Aros, Llwytho neu Dadlwytho ar Unrhyw Adeg) (Dirymiad) a (Chlustogau Arafu) 2020 ar waith yn Swansea Road, Trebannws (fel y nodwyd yn Atodiad A yr adroddiad a ddosbarthwyd) fel y'i hysbysebwyd, a hysbysu'r gwrthwynebydd yn briodol.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Lleihau cyflymder y traffig ger yr ysgol a chaniatáu i gerbydau'r gwasanaethau brys a chludiant cyhoeddus deithio'n ddiogel a gosod eu hunain fel bod eu holwynion ar bob ochr i'r clustogau er diogelwch y ffordd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghoriad:**

Mae'r eitem hon wedi bod yn destun ymgynghoriad allanol.

**CADEIRYDD**